




**Comisiwn
Bevan
Commission**

Lleihau Gwasttraff Gyda'n Gilydd Adroddiad Terfynol

Crynodeb Gweithredol

Ionawr 2025

Crynodeb Gweithredol

*Mae gwastraff yn fusnes i bawb - ac mae angen i ni **i gyd** chwarae ein rhan yn hyn.*

Sefydlwyd rhaglen 'Let's Not Waste' Comisiwn Bevan i helpu i fynd i'r afael â gwastraff ar draws lleoliadau iechyd a gofal yng Nghymru. Gan adeiladu ar y cyhoeddiad 'What a Waste!', canolbwyntiodd y rhaglen ar chwe pharth allweddol: Gweithlu, Gweinyddu, Gwasanaethau, Triniaeth, Ynni, a Systemau (WASTES).

Nod y rhaglen oedd codi ymwybyddiaeth o wastraff, hyrwyddo cynaliadwyedd, a chefnogi mentrau lleihau gwastraff, yn unol â Chynllun Datgarboneiddio GIG Cymru Llywodraeth Cymru.

Ymgysylltodd y rhaglen ag ystod eang o bobl a sefydliadau ledled Cymru, gan gynrychioli degau o filoedd o staff. Trwy gyfres o weithdai wedi'u targedu, digwyddiadau, rhwydweithiau cydweithredol, a'r addewid 'Let's Not Waste', mae'r rhaglen wedi creu cyfleoedd hanfodol i weithwyr gofal iechyd proffesiynol gael mynediad at wybodaeth a chymorth, i gydweithio tuag at leihau gwastraff. Darparodd digwyddiadau fel Cynhadledd GIG 75 a'r Dosbarth Meistr Gwastraff ar gyfer uwch swyddogion gweithredol, dan arweiniad yr Athro Don Berwick, lwyfannau ar gyfer cydweithredu a chyfnewid gwybodaeth, gan gyfrannu'n fawr at gyrhaeddiad ac effaith y rhaglen.

Gweithiodd y rhaglen gyda rhanddeiliaid trwy weithgorau i nodi blaenoriaethau a datblygu ystod o offer cymorth ymarferol. Roedd y rhain yn cynnwys Pecyn Cymorth Newid Ymddygiad Plastigau Untro, a gafodd ei brofi a'i fireinio drwy sesiynau Hyfforddi'r Hyfforddwr, ynghyd â'r Pecyn Cymorth Generig ar gyfer addasu, Pecyn Cymorth Eich Meddyginiaethau, Eich Iechyd (YMYH), a Phecyn Cymorth Lleihau Bagiau Plastig Fferyllfa . Mae'r offer hyn wedi'u cynllunio i rymuso gweithwyr gofal iechyd proffesiynol i integreiddio arferion lleihau gwastraff mewn gweithrediadau dyddiol.

Amlygodd arolwg cyhoeddus yn 2023 gefnogaeth gref i leihau gwastraff mewn iechyd a gofal, gyda'r cyhoedd yn cydnabod ei bwysigrwydd ar gyfer cynaliadwyedd, diogelu gwasanaethau ar gyfer y dyfodol, a gwella effeithlonrwydd. Ymhlith y rhwystrau allweddol a nodwyd roedd heriau gweinyddol, hen seilwaith, a phwysau gweithlu ac ariannol. Roedd y blaenoriaethau ar gyfer gweithredu yn cynnwys symleiddio prosesau, gwella effeithlonrwydd ynni, a mynd i'r afael ag aneffeithlonrwydd fel colli apwyntiadau a rhagnodi gormodol.

Datblygwyd cyfleoedd hefyd i annog mwy o arloesi ym maes gwastraff drwy raglen Enghreifftiol Bevan. Cefnogodd hyn 10 menter a oedd yn treialu a phrofi arferion darbodus newydd gyda'r nod o leihau, ailgylchu ac ailddefnyddio deunyddiau. Cafwyd canlyniadau sylweddol, gan gynnwys derbynnydd Gwobr Arloeswr Comisiwn Syr Mansel Aylward Bevan, a symudodd lawdriniaeth law yn llwyddiannus y tu allan i leoliad y theatr. Roedd y dull hwn nid yn unig yn lleihau ôl troed carbon gweithdrefnau llawfeddygol ond hefyd yn dangos y potensial ar gyfer arferion mwy diogel, mwy cost-efeithiol ac effeithlon mewn gofal iechyd, gan baratoi'r ffordd ar gyfer arloesiadau cynaliadwy yn y dyfodol mewn meysydd meddygol eraill.

Er mwyn sicrhau effaith hirdymor y rhaglen, mae Comisiwn Bevan yn argymhell arweinyddiaeth barhaus, partneriaethau ehangach, a mwy o ymgysylltu â'r cyhoedd i adeiladu ar y sylfaen gadarn sydd eisoes wedi'i sefydlu. Drwy gryfhau'r meysydd hyn, gall Cymru barhau i arwain y ffordd o ran lleihau gwastraff gofal iechyd, gan greu systemau mwy cynaliadwy ac effeithlon ar gyfer y dyfodol.



Lleihau Gwastraff Gyda'n Gilydd Let's Not Waste nid rhaglen yn unig mohoni; mudiad diwylliannol ydyw

Suzanne Rankin
Prif Weithredwr, Bwrdd Iechy Prifysol Caerdydd a'r Fro

Comisiwn Bevan Commission

School of Management,
Swansea University Bay Campus,
Fabian Way, Swansea SA1 8EN

www.bevancommission.org
bevan-commission@swansea.ac.uk
+44 (0)1792 604 630
